

Arweiniad atodol:

anghenion dysgu
ychwanegol

Hydref 2017

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru>

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

® Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.

Beth yw'r diben?

Rhoi rhagor o arweiniad i arolygwyr, i'w ddefnyddio ochr yn ochr ag arweiniad y sector, wrth arfarnu deilliannau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed.

Ar gyfer pwy mae wedi'i fwriadu?

Ar gyfer arolygwyr pob darparwr cynradd ac uwchradd a gynhelir ac annibynnol, darparwyr arbennig, unedau cyfeirio disgyblion a cholegau addysg bellach.

Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad? Medi 2017

Cynnwys	Tudalen
Arweiniad atodol	1
Cyflwyniad	2
Arfarnu anghenion dysgu ychwanegol	4
Maes arolygu 1: Safonau	4
Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu	5
Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu	6
Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad	7
Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth	10
Atodiad 1: Trosolwg o newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth anghenion addysgol arbennig	12
Atodiad 2: Dogfennau cynllunio ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol	14
Atodiad 3: Dosbarth arbenigol awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr ag AAA/ADY	16
Atodiad 4: Darpariaeth ychwanegol i reoli ymddygiad a chefnogi dysgu	17
Atodiad 5: Enghraifft o fap darpariaeth	18
Atodiad 6: Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (2004)	19
Atodiad 7: Dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol ac adnoddau addysgu ychwanegol mewn darparwyr prif ffrwd	20

Arweiniad atodol

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn yn cynorthwyo arolygwyr i arfarnu'r deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed.

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael y dechrau gorau mewn bywyd trwy roi cyfleoedd ac anogaeth iddynt gyflawni eu llawn botensial mewn darparwyr sy'n darparu amgylcheddau cynhwysol a chefnogol. Mae'r weledigaeth hon ar gyfer cynhwysiant wedi'i hamlinellu yn [Cylchlythyr 203/2016 'Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion'](#).

Mae Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael ei phasio trwy'r Cynulliad Cenedlaethol, ac os caiff ei gymeradwyo, mae'n debygol o gael Cydsyniad Brenhinol yn Rhagfyr 2017. Disgwylir y bydd y newidiadau i ddeddfwriaeth ADY yn cael eu rhoi ar waith dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd Estyn yn diweddarau'r arweiniad hwn bob blwyddyn i adlewyrchu'r newidiadau yn ystod y cyfnod hwn.

I baratoi ar gyfer y newidiadau, mae awdurdodau lleol, darparwyr a cholegau addysg bellach (SAB) yn addasu yn unol â newidiadau disgwylidig. O ganlyniad, mae dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn dechrau cael eu defnyddio. Mae cynlluniau addysg unigol (CAU), cynlluniau ymddygiad unigol (CYU) a chynlluniau eraill yn cael eu disodli gan un ddogfen o'r enw cynlluniau datblygu unigol (CDU). Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y rhain yn Atodiad 2.

Bydd y term anghenion addysgol arbennig yn cael ei ddisodli gan "anghenion dysgu ychwanegol".

Dyma ddiffiniad o "anghenion dysgu ychwanegol" fel y caiff ei ddarparu ym Mil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru):

- (1) Mae gan unigolyn anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo/ganddi anhawster neu anabledd dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- (2) Mae gan blentyn o oedran darparwr gorfodol neu unigolyn dros yr oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu:
 - (a) os yw'n cael cryn dipyn yn fwy o anhawster yn dysgu na mwyafrif y dysgwyr eraill o'r un oedran, neu
 - (b) os oes ganddo/ganddi anabledd sy'n ei (h)atal rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer dysgwyr eraill o'r un oedran mewn darparwyr prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- (3) Mae gan blentyn o dan oedran darparwr gorfodol anhawster neu anabledd dysgu os yw'n debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o oedran darparwr gorfodol (neu byddai'n debygol o fod, pe na bai unrhyw ddarpariaeth dysgu ychwanegol yn cael ei threfnu).

Mae Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cwmpasu'r ystod oedran 0-25 a bydd yn berthnasol i blant a phobl ifanc mewn colegau addysg bellach. O'r herwydd, mae'r arweiniad hwn yn defnyddio'r term dysgwr i gwmpasu pob grŵp o fewn yr ystod oedran 0-25.

O dan arweiniad presennol Llywodraeth Cymru, mae grwpiau eraill o ddysgwyr y gellid ystyried bod ganddynt angen dysgu ychwanegol. Efallai nad yw'r diffiniad newydd o angen dysgu ychwanegol yn berthnasol i unigolion yn y grwpiau hyn. Fodd bynnag, mae Estyn yn ystyried bod dysgwyr yn y grwpiau canlynol yn agored i niwed, ac mae'r arweiniad hwn yn berthnasol iddynt.

Mae grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n agored i niwed yn cynnwys:

grwpiau ethnig lleiafrifol	ffoaduriaid/ceiswyr lloches	gweithwyr mudol
plant sy'n derbyn gofal	rhieni ifanc a menywod ifanc beichiog	plant a theuluoedd mewn amgylchiadau anodd
troseddwy'r ifanc	dysgwyr sydd mewn perygl o fwlio homoffobig	dysgwyr ag anghenion Medrau Sylfaenol
dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw mewn darparwr	dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt	gofalwyr ifanc plant teuluoedd sydd yn y fyddin
sipsiwn a theithwyr	dysgwyr ag anghenion meddygol, gan gynnwys y rheiny ag anghenion iechyd meddwl	plant sydd wedi cael eu mabwysiadu

Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys:

- cwestiynau ar gyfer pob maes arolygu
- cwestiynau ar gyfer arfarnu cynlluniau datblygu/ addysg, ymddygiad neu chwarae unigol (Atodiad 2)
- cwestiynau ar gyfer darparwyr ble mae darpariaeth ychwanegol i helpu i reoli ymddygiad (Atodiad 4)
- gwybodaeth am gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a chynlluniau datblygu unigol (Atodiad 1)

Dylid cofnodi angen nodedig pob dysgwr sydd ag angen dysgu ychwanegol naill ai ar: gynlluniau datblygu unigol (CDU), cynlluniau addysg unigol (CAUau) neu gynlluniau ymddygiad unigol (CYUau). Pan fo'n briodol, dylai cynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau) fod ar waith ar gyfer plant sydd mewn perygl o ymddieithrio a/neu weithgarwch troseddol. Yn y Cyfnod Sylfaen, bydd cynlluniau chwarae unigol (CChUau) ar waith ar gyfer pob dysgwr ar gofrestr AAA/ADY y darparwr. Mae llawer o ddarparwyr yn cyfuno cynlluniau addysg ac ymddygiad yn un cynllun cydlynol. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn datblygu cynlluniau addysg neu ymddygiad ar gyfer grwpiau bach o ddysgwyr yn hytrach nag unigolion.

Dylai arolygwyr sicrhau bod arfarnu'r pum maes arolygu yn cynnwys cyflawniadau, agweddau a lles pob dysgwr. Mae'n hanfodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, y dylai barnau am gyflawniad ystyried cyflawniadau dysgwyr mewn perthynas â nodau dysgu cytûn a chynnydd a wnaed o'u manau cychwyn unigol.

Mae Iaith Pawb, sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog, yn cydnabod hawl dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig i dderbyn darpariaeth yn eu dewis iaith, yn unol â'r hyn a amlinellir yn y Cod Ymarfer anghenion addysgol arbennig diwygiedig ar gyfer Cymru (2002).

Mae'n ofynnol i bob darparwr annibynnol yng Nghymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Darparwyr Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr drefnu darpariaeth briodol ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rheiny ag anghenion addysgol arbennig. Nid yw'n ofynnol i'r darparwr gadw at y Cod Ymarfer AAA na threfnu darpariaeth Gymraeg, er y gellir ystyried bod y rhain yn arfer dda.

Arfarnu anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau eraill sy'n agored i niwed

Maes arolygu 1: Safonau

1.1: Safonau a chynnydd yn gyffredinol

Bydd barnau ar safonau dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu dylanwadu gan y wybodaeth sydd ar gael am anghenion a galluoedd unigol dysgwyr. Bydd barnau'n ystyried cyraeddiadau a chyflawniadau dysgwyr, mewn perthynas â nodau dysgu unigol cytûn.

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau eraill sy'n agored i niwed:

- A ydynt yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u manau cychwyn unigol?
- A yw dysgwyr yn ymwybodol o'r cynnydd y maent yn ei wneud, ac a ydynt yn mynd ati i gymryd rhan mewn gosod targedau ar gyfer gwella?
- A ydynt yn cyflawni'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'u gwaelodlin a'u data cyrhaeddiad blaenorol?
- A ydynt yn cyflawni'r targedau disgwyliedig sydd wedi'u cynnwys yn eu CDU, CAU, ac ati (gweler Atodiad 2)?
- A yw targedau i'w datblygu yn ddigon heriol a phriodol?
- A yw eu hanawsterau penodol, fel canolbwyntio gwael neu fedrau cyfathrebu gwan, yn rhwystro eu cynnydd a'u cyfle i elwa ar y cwricwlwm cyfan?
- Sut mae eu medrau cyfathrebu yn effeithio ar y ffordd y maent yn rhyngweithio â staff a chyfoedion?
- Pan fo'n briodol, a yw dysgwyr yn mynd ymlaen i ddilyn cyrsiau, hyfforddiant neu gyflogaeth ystyrlon?

1.2: Safonau a chynnydd grwpiau penodol

- Os yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da, pam?
- A yw pob un o'r dysgwyr ag ADY yn gwneud cynnydd o gymharu â'u man cychwyn, ac yn unol â thargedau cytûn?
- A yw pob un o'r dysgwyr yn ôl math o AAA, e.e. y rheiny ag anawsterau dysgu cyffredinol, anawsterau dysgu cymedrol, anhawster dysgu penodol, awtistiaeth, ac ati, yn gwneud cynnydd sy'n cyd-fynd â'u man cychwyn a'u targedau dysgu cytûn?

1.3: Safonau a chynnydd mewn medrau

O gymharu â'u gwaelodlin a'u targedau dysgu cytûn, a yw dysgwyr:

- yn datblygu ac yn gwneud cynnydd mewn siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu?
- yn gwneud cynnydd o ran datblygu a chymhwysio eu medrau rhifedd yn briodol?
- yn datblygu annibyniaeth a medrau gwneud penderfyniadau priodol, gan gynnwys hunanofal, hylendid personol, trin arian?
- yn defnyddio amrywiaeth o TGCh yn briodol?
- yn gwneud cynnydd priodol yn y Gymraeg ac yn dangos gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru?

Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu?

2.1: Lles

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau eraill sy'n agored i niwed:

- I ba raddau y mae dysgwyr yn rhydd oddi wrth niwed, fel bwlio, cam-drin geiriol neu gorfforol?
- I ba raddau y mae dysgwyr yn gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch iechyd personol a gweithgarwch corfforol?
- A yw pob un o'r dysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol eraill?

2.2: Agweddau at ddysgu

- Sut mae cyfraddau presenoldeb yn cymharu dysgwyr ag ADY â dysgwyr nad oes ganddynt ADY yn y darparwr?
- Sut mae cyfraddau dysgwyr ag ADY yn cymharu â dysgwyr nad oes ganddynt ADY, neu grwpiau eraill sy'n agored i niwed?
- Sut mae cyfraddau cwblhau yn cymharu ar gyfer dysgwyr nad oes ganddynt ADY neu ddysgwyr o grwpiau sy'n agored i niwed?
- A gaiff dysgwyr o grwpiau sy'n agored i niwed eu cynnwys yn weithredol mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u dysgu, er enghraifft trwy gymryd rhan ar gynghorau darparwr neu undebau myfyrwr?
- A yw pob un ohonynt yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn ymgymryd yn dda â thasgau?

- A ydynt i gyd yn gwneud cynnydd mewn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith?
- Pa mor effeithiol y mae dysgwyr yn gweithio gyda dysgwyr eraill, yn datrys problemau ac yn paratoi ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r darparwr?
- Mewn perthynas â'u hangen nodedig, a yw dysgwyr, yn enwedig y rheiny ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY), yn dangos ymddygiad da mewn gwersi ac o gwmpas y darparwr?

Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau eraill sy'n agored i niwed:

- A gaiff y dulliau addysgu eu defnyddio'n llwyddiannus wrth ymgysylltu â dysgwyr?
- I ba raddau y mae addysgu yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr?
- A gaiff y gwaith a ddarperir ei addasu i'w wneud yn briodol heriol ar gyfer pob dysgwr?
- A gaiff deunyddiau a dulliau cyflwyno eu haddasu'n briodol i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i ddysgwyr?
- I ba raddau y mae addysgu yn gwella gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr?
- A oes gan staff ddisgwyliadau uchel ac a ydynt yn darparu gwaith heriol i fodloni anghenion pob un o'r dysgwyr?
- A gaiff staff cymorth eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu ac ymddygiad?¹
- A yw staff yn rhoi adborth priodol ac ystyrion i ddysgwyr?
- I ba raddau y mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrion sy'n dangos dealltwriaeth o'u perfformiad eu hunain a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i wella?

3.2: Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm

- A gaiff pob dysgwr gyfle i elwa ar gwricwlwm sy'n briodol i'w hanghenion, ac yn eang a chytbwys?
- A oes gan ddysgwyr unrhyw anghenion cwricwlwm nad yw'r darparwr/SAB yn darparu ar eu cyfer?
- A oes gan y darparwr fap o'r ddarpariaeth (gweler Atodiad 5) i'w gynnwys sy'n cael ei fonitro a'i adolygu bob blwyddyn?
- Pan fo'n briodol, pa mor dda y mae'r darparwr yn addasu rhaglenni astudio pan fydd dysgwyr yn gweithio cryn dipyn islaw lefelau disgwylidiedig?
- A yw'r darparwr yn defnyddio ystod o offer a gweithdrefnau asesu ychwanegol priodol ar gyfer nodi anghenion dysgwyr?
- Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau ymyrraeth gynnar y darparwr?
- A yw'r darparwr yn gwneud defnydd da o ddata sydd ar gael i ddarparu profiadau cwricwlwm ychwanegol ar gyfer dysgwyr, sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion?
- Pa mor dda y mae'r darparwr yn ceisio lleihau'r anawsterau o ran bylchau mewn

¹ Trwy gydol yr arweiniad hwn, defnyddir y term 'staff cymorth' i ddynodi staff, heblaw athrawon, sy'n cael eu cyflogi i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, cynorthwywyr cymorth dysgu, cynorthwywyr cymorth ymddygiad a chynorthwywyr cyfathrebu.

dysgu a chwricwlwm a ailadroddir ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal sydd wedi symud lleoliad sawl gwaith?

- A gaiff dysgwyr eu grwpio mewn ffordd sy'n eu helpu i ddysgu yn y ffordd orau, gan gynnwys grwpiau tynnu allan o wersi a grwpiau dosbarth bach?
- Pan fo'n berthnasol, a ymgynghorir â dysgwyr pan mae'n fwyaf priodol iddynt gael eu tynnu o waith y grŵp dosbarth ar gyfer gwaith unigol?
- A yw dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau arbennig neu grwpiau bach yn cael ystod o brofiadau, gan gynnwys cydweithio â dysgwyr eraill?
- Sut mae'r darparwr yn sicrhau bod dysgwyr mewn darpariaeth tynnu allan o wersi yn elwa ar gwricwlwm eang a chytbwys?
- A yw trefniadau eistedd yn bodloni anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A yw dysgwyr sy'n elwa ar y cwricwlwm gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain neu Saesneg â chymorth arwyddion yn cael cymorth i wneud hynny pan fydd ei angen arnynt?
- A yw dysgwyr â nam ar eu clyw yn astudio Iaith Arwyddion Prydain fel rhan o'r cwricwlwm?
- Pan fo'n berthnasol ac yn briodol, a oes cynlluniau datblygedig ar gyfer trosglwyddo'n ôl i ddarpariaeth prif ffrwd?
- A yw'r darparwr wedi ei addasu'n gorfforol i fodloni anghenion dysgwyr yn briodol?
- A oes cyfleusterau newid priodol ar gyfer dysgwyr ag anabledau?
- A gaiff adnoddau eu gweddu'n dda i anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A gaiff adnoddau arbenigol, er enghraifft offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), cymhorthion radio a systemau meysydd sain, eu defnyddio'n dda i alluogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm?

3.3: Darpariaeth ar gyfer medrau

- I ba raddau y caiff anghenion unigol eu hystyried wrth ddarparu cwricwlwm addas sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh dysgwyr?
- A yw'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg, lle bo'n briodol?
- A oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau mewn sefyllfaoedd ymarferol, bywyd go iawn?
- I ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu medrau sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf mewn dysgu/bywyd, er enghraifft annibyniaeth, hunanofal neu drin arian?

Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad

4.1: Orlhain, monitro a darparu cymorth dysgu

- A oes gan y darparwr systemau priodol ar waith i olrhain cynnydd dysgwyr? A ddefnyddir y system hon yn dda i fonitro cynnydd grwpiau o ddysgwyr ac unigolion?
- A yw'r darparwr yn defnyddio data asesu yn dda i fonitro cynnydd dysgwyr a mireinio'r cwricwlwm a/neu gynorthwyo anghenion dysgwyr mewn modd

amserol?

- I ba raddau y mae dysgwyr ag ADY a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn gadael cofrestr y darparwr cyn cwblhau naill ai eu haddysg statudol neu'u cwrs? Pa resymau a ddarperir ar gyfer hyn a sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu â llywodraethwyr neu'r awdurdod lleol?
- A yw cymorth dysgu yn briodol? A oes gan y darparwr ddealltwriaeth ddigon da o effeithiolrwydd y cymorth?
- A yw CDUau, CAUau a dogfennau cynllunio eraill yn gyfoes? A ydynt yn defnyddio gwybodaeth gyfoes am gynnydd dysgwyr i osod targedau ystyrion a heriol ar gyfer gwella sy'n cynnwys nodau dysgu a nodau cymdeithasol, fel ei gilydd? A yw meini prawf llwyddiant wedi'u sefydlu o fewn amserlen realistig a chyflawnadwy?
- A gaiff dysgwyr eu cynnwys mewn gosod ac adolygu eu targedau ar gyfer gwella mewn ffordd ystyrion?
- Sut mae'r darparwr yn gwybod bod targedau yng nghynlluniau dysgwyr yn cael eu defnyddio gan weithwyr addysgu proffesiynol i gynorthwyo dysgwyr?
- A yw'r darparwr yn sicrhau bod yr argymhellion a'r cyngor gan staff arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith a staff ymgynghori eraill, yn cael eu cynnwys mewn CDUau neu ddogfennau cynllunio eraill?
- A yw'r darparwr yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid, gan gynnwys rhieni, i nodi anghenion dysgwyr a threfnu darpariaeth briodol?
- Pa mor effeithiol yw'r darparwr o ran sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni/gofalwyr? A yw rhieni'n teimlo eu bod yn cael cymorth da gan y darparwr?
- A yw'r darparwr yn sicrhau bod rhieni'n cael cyfle i weld ystod o wybodaeth gyfoes am anghenion dysgu ychwanegol a/neu anghenion eraill?
- A yw'r darparwr yn glir fod y system AAA bresennol ar waith hyd nes y caiff Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ei roi ar waith yn llawn ac y gellir gofyn o hyd am ddatganiadau anghenion addysgol arbennig ar gyfer dysgwyr y caiff eu hanghenion eu bodloni orau gyda datganiad?
- Pa mor effeithiol yw adroddiadau blynyddol i rieni/gofalwyr? A ydynt yn glir a phersonol ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r dysgwr? A ydynt yn rhoi disgrifiad digon da o'r cynnydd a wnaed gan unigolion?
- A yw adroddiadau i rieni/gofalwyr yn cysylltu'n ddigon da â thargedau sydd wedi'u cynnwys mewn dogfennau cynllunio?
- A oes cyfleoedd priodol i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr roi sylwadau ar adroddiadau blynyddol? Faint o ystyriaeth y mae'r darparwr yn ei rhoi i farn dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr?
- A oes cysylltiadau agos a chyd-gynllunio da rhwng unrhyw ddarpariaeth adnoddau a darpariaeth prif ffrwd?
- Pa mor effeithiol yw'r darparwr o ran trefnu darpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion emosiynol a/neu anghenion cymdeithasol?
- A yw'r darparwr yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer dysgwyr sy'n cael cludiant arbenigol i'r darparwr, ac oddi yno, i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol wedi eu trefnu gan y darparwr?
- A yw darparwyr yn gwneud dysgwyr a theuluoedd yn ymwybodol o wasanaethau cymorth proffesiynol a gwasanaethau arbenigol fel gwasanaethau cwrsela, Gyrfa Cymru a gwasanaethau iechyd meddwl?
- Pan fo'n berthnasol, a yw dysgwyr yn gallu mynd at staff cymorth arbenigol,

athrawon neu seicolegwyr addysg sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer anghenion penodol fel therapyddion lleferydd ac iaith?

- A gaiff rhieni/gofalwyr eu helpu i ddeall gweithdrefnau, gan gynnwys gweithdrefnau asesu statudol, ac a allant weld cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'u plant?

4.2: Datblygiad personol

- I ba raddau y mae'r darparwr yn trefnu cyfleoedd ystyrlon a gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wrth wneud dewisiadau addas am ffordd o fyw mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach, camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein a rhyw a pherthnasoedd?
- I ba raddau y caiff rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol y darparwr ei theilwra yn ôl anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed?
- A gaiff y ddarpariaeth ei haddasu'n ddigon da yn ôl anghenion dysgwyr a lefel dealltwriaeth dysgwyr?
- I ba raddau y mae'r darparwr yn llwyddo i nodi a chynorthwyo anghenion emosiynol ac iechyd meddwl dysgwyr?
- A roddir digon o anogaeth a chyfleoedd i bob dysgwr gymryd cyfrifoldeb drostyn nhw eu hunain a phobl eraill, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth o fyw mewn cymuned?
- I ba raddau y mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn cymryd rhan yn weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt? A oes ganddynt rôl weithredol fel cynrychiolydd dosbarth neu gynrychiolydd myfyrwyr? A ydynt yn aelodau o gynghorau'r darparwr neu undebau myfyrwyr? A wrandewir ar eu barn a'u profiadau, ac a weithredir yn unol â nhw?
- Pa mor dda y mae'r darparwr yn sicrhau bod cyfleoedd i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, neu'r rheiny sy'n agored i niwed, ddatblygu'n ysbrydol ac yn ddiwylliannol, er enghraifft trwy ddarpariaeth wedi'i theilwra'n dda ar gyfer y celfyddydau, gan gynnwys cerddoriaeth, celf a dylunio? A yw'r darparwr yn sicrhau bod cynrychiadau a pherfformiadau'r darparwr, theatr, dawns a chwaraeon yn cynnwys cyfleoedd priodol i alluogi'r rheiny ag anghenion ychwanegol a chorfforol i gymryd rhan?
- Pa mor dda y mae'r darparwr yn trefnu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u diwylliannau eu hunain, a diwylliannau pobl eraill, yn eu cymunedau lleol a thu hwnt?
- Pan fo'n berthnasol, a gaiff trefniadau arholi arbennig eu cynllunio, eu trafod a'u cynllunio'n dda gyda dysgwyr?

4.3: Diogelu

- A yw polisïau a gweithdrefnau diogelu'r darparwr yn ystyried y ffaith fod dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn agored i niwed yn gynyddol, ac yn sicrhau bod trefniadau ar gyfer y dysgwyr hyn yn briodol?
- A yw staff wedi cael eu hyfforddi'n briodol mewn ymyrraeth gorfforol ataliol, lle bo'n briodol?

- A oes gan y darparwr bolisi clir sy'n ymwneud â defnyddio ymyrraeth gorfforol ataliol? A oes gan y darparwr systemau priodol i gofnodi digwyddiadau, gan gynnwys adrodd i gyrff perthnasol?
- A yw protocolau meddygol ar gyfer dysgwyr anabl unigol yn gyfoes ac a yw staff wedi cael eu hyfforddi'n briodol?
- I ba raddau y mae dull gwrthfwllo'r darparwr yn effeithiol, yn enwedig o ran dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau eraill sy'n agored i niwed?

Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth

5.1: Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol/pwyllgor rheoli

- A yw rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynnydd AAA/Cydlynnydd ADY wedi'u diffinio'n glir?
- A yw'r Cydlynnydd AAA/Cydlynnydd ADY yn wybodus am arweiniad lleol a chenedlaethol ar nodi ac asesu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'u rôl o ran rhoi'r arweiniad ar waith?
- A oes digon o amser pan nad oes addysgu i'r Cydlynnydd AAA/Cydlynnydd ADY gyflawni ei rôl?
- Pa mor effeithiol yw'r darparwr yn gweithio gyda phartneriaid i wella gwybodaeth a dealltwriaeth staff i wneud addasiadau addas i'r cwricwlwm a/neu gymorth?
- I ba raddau y mae'r darparwr yn paratoi ar gyfer y newidiadau i ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol?
- I ba raddau y mae'r llywodraethwr dynodedig yn "hyrwyddwr" ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau eraill sy'n agored i niwed?
- Pa mor effeithiol yw'r llywodraethwr dynodedig o ran dwyn yr uwch dîm arweinyddiaeth i gyfrif am y safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed?
- A oes cysylltiad effeithiol â'r awdurdod lleol i sicrhau bod cymorth ychwanegol yn bodloni anghenion dysgwyr?
- A yw'r darparwr yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, er enghraifft gwasanaethau iechyd, gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol, i fodloni anghenion dysgwyr?
- Beth yw canlyniadau mentrau (lle bo'n briodol) fel Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf, Tîm o Amgylch y Teulu a gwaith agos arall ag asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd, seicolegol, cymunedol ac iechyd meddwl (CAMHS), cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol?
- A yw'r darparwr yn cysylltu'n dda ag asiantaethau eraill ac yn helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i gynllunio eu llwybrau yn y dyfodol?
- A oes gan y darparwr drefniadau da ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn trosglwyddo'n ddi-dor i ddarparwr, ar draws cyfnodau allweddol ac i golegau addysg bellach, neu ddarpariaeth arall, fel y bo'n berthnasol?
- A oes gan y darparwr gysylltiadau cryf â rhieni a gofawyr sy'n helpu i barhau â dysgu yn y cartref?
- A oes tystiolaeth fod y darparwr yn olrhain cynnydd dysgwyr sy'n cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol ac UC'Dau?
- Pa mor ymrwymedig yw'r darparwr i drefniadau 'symudiadau rheoledig' yr awdurdod lleol?

5.2: Prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

- Pa mor effeithiol y mae'r darparwr yn defnyddio data o ystod o ffynonellau i nodi blaenoriaethau gwella?
- Pa mor dda y mae rheolwyr ar bob lefel yn deall yr hyn y mae angen ei wneud i wella deilliannau a chynnydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau eraill sy'n agored i niwed?
- Sut mae'r darparwr yn cynllunio i wella safonau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr? Pa mor dda y mae'r cynllun hwn yn cysylltu â chynlluniau gwella cyffredinol?
- A yw cynlluniau yn cynnwys ffocws digonol ar raddfa amser a chost gwneud addasiadau addas i'r amgylchedd ffisegol?
- Pa weithdrefnau sicrhau ansawdd sydd ar waith i sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn cael eu bodloni? Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn gosod a chyflawni targedau heriol ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr?
- Sut mae'r darparwr yn gwybod a yw'r Cydlynnydd AAA/Cydlynnydd ADY yn effeithiol o ran cyflawni ei ddyletswyddau?
- I ba raddau y caiff ansawdd gwaith dosbarthiadau arbenigol ALI ei sicrhau?
- A oes gan y darparwr hanes cryf o wella deilliannau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed? Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod targedau ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn briodol heriol, fel bod y dysgwyr hyn yn cyrraedd y safonau uchaf y gallant eu cyflawni?
- I ba raddau y mae'r Cydlynnydd AAA/Cydlynnydd ADY yn rhannu eu gwybodaeth gyda staff a beth fu effaith hyn?

5.3: Datblygiad proffesiynol

- Sut mae'r darparwr wedi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth pob un o'r staff o ran anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed?
- I ba raddau y mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd a gwybodaeth staff arbenigol i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer dysgwyr?
- A oes gan y darparwr hanes cryf o gefnogi datblygiad proffesiynol staff cymorth arbenigol?

5.4: Defnyddio adnoddau

- A oes gan y Cydlynnydd AAA/Cydlynnydd ADY gymwysterau a phrofiad priodol?
- A yw'r darparwr yn neilltuo digon o adnoddau i fodloni anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed?
- Pa mor dda y mae staff dynodedig, gan gynnwys staff cymorth, yn deall a chyflawni eu rolau yn effeithiol?
- A oes gan y darparwr ddigon o staff sydd â'r medrau cywir i gynorthwyo dysgwyr yn effeithiol i sicrhau dilyniant a pharhad mewn dysgu?
- A oes gan y darparwr hanes o ariannu darpariaeth yn briodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed?
- A yw'r darparwr yn gallu dangos effaith neu werth ei benderfyniadau gwario? Er enghraifft trwy fap o'r ddarpariaeth
- A oes gan y Cydlynnydd AAA/Cydlynnydd ADY ac unrhyw staff arbenigol gymwysterau ychwanegol mewn anghenion dysgu ychwanegol?
- A yw staff arbenigol o'r sefydliad hwn yn cefnogi darpariaethau eraill nad ydynt yn arbenigol i wella eu deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY?

Atodiad 1: Trosolwg o newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth anghenion addysgol arbennig

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Bydd y Bil yn disodli deddfwriaeth bresennol o ran anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anabledau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Amcanion y Bil

- 1 •Darn unedig o ddeddfwriaeth i gynorthwyo plant a phobl ifanc 0-25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol mewn darparwyr a sefydliadau addysg bellach;
- 2 •Proses asesu, cynllunio a monitro integredig, gydweithredol sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
- 3 •System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

Bydd yr amcanion yn cael eu cefnogi gan y nodau canlynol:

- 1 Bydd y term angen addysgol arbennig (AAA) yn cael ei ddisodli â'r term angen dysgu ychwanegol (ADY)
- 2 Bydd y ddeddfwriaeth yn cwmpasu plant a phobl ifanc yn yr ystod oedran 0-25. Fodd bynnag, ni fydd y Bil yn cwmpasu dysgwyr ôl-16 mewn hyfforddiant yn y gwaith, gan gynnwys prentisiaethau neu'r dysgwyr hynny mewn addysg uwch.
- 3 Bydd datganiadau anghenion addysgol arbennig, cynlluniau addysg unigol a dogfennau cynllunio eraill yn cael eu disodli gan y cynllun datblygu unigol (CDU). Y CDU fydd y cynllun statudol unigol. O ganlyniad, bydd gan yr holl blant a phobl ifanc sydd ag ADY yr hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r ddarpariaeth a nodir yn y CDU.
- 4 Bydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cynyddu cyfranogiad yr holl blant a phobl ifanc.
- 5 Bwriad y Bil yw creu dyheadau uchel a gwella deilliannau ar gyfer pob dysgwr sydd ag ADY.
- 6 Mae pwyslais yn y Bil ar gydweithio cryfach gyda phob partner a ffocws ar ddatrys anghytuno ar lefel leol.
- 7 Gan gofio hyn, y gobaith yw y bydd y diwygiadau yn arwain at system symlach, sy'n llai gwrthwynebol na'r system bresennol.
- 8 Crëwyd rôl statudol newydd mewn byrddau iechyd lleol. Bydd y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig yn gyfrifol am sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal pan gaiff cyfeiriadau eu gwneud.
- 9 Mae'r hawl i apelio i'r tribiwnlys wedi cynyddu i bobl 25 oed.
- 10 Bydd Cod Ymarfer gorfodol newydd yn cael ei ysgrifennu.

Yn ychwanegol:

- Bydd rôl statudol newydd cydlynedd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) yn cael ei chyflwyno i ddisodli cydlynedd anghenion addysgol arbennig (CydAAA). Bydd y gofyniad i sicrhau bod CydADY ar gael yn cwmpasu'r ystod oedran 0-25.
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cymhwyster lefel Meistr ar gyfer cydlynwyr ADY.
- Bydd y cod ymarfer newydd yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn CDUau.
- Bydd gofynion y Bil yn cael eu cyflwyno dros gyfnod o bum mlynedd.

Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion

Cymerwyd y canlynol o [canllawiau Llywodraeth Cymru ar adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion](#):

Egwyddorion adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yw sicrhau mai'r dysgwr sy'n ganolog iddynt, trefnu bod gwybodaeth ar gael i bawb, a galluogi pawb i gyfrannu'n gyfartal. Ar yr amod eich bod yn cadw at yr egwyddorion hynny, yna gall y ffordd y mae'r adolygiad yn digwydd fod mor amrywiol â'r dysgwyr yr ydych yn eu cynorthwyo.

Mae adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn canolbwyntio ar y canlynol:

- dyheadau'r dysgwr a'i deulu
- deall beth sy'n bwysig i'r dysgwr
- mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr ei ddatblygu a gwneud cynnydd ynddo
- disgrifio sut beth yw cymorth da
- dadansoddi beth sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio o wahanol safbwyntiau
- datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Rhaid i'r broses a'r cyfarfod gynnwys y dysgwr, pobl yr hoffent iddynt fod yno ac unrhyw bobl allweddol y mae'n rhaid iddynt fod yno. Mae'n gyfarfod sy'n cael ei hwyluso sy'n rhannu a chofnodi gwybodaeth mewn ffordd agored a thryloyw.

Mae'r hwylusydd yn arwain pawb yn yr adolygiad trwy sgwrs i ddatblygu deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion sy'n symud y dysgwr tuag at eu dyheadau, newid yr hyn nad yw'n gweithio, ac adeiladu ar, neu gynnal, yr hyn sy'n gweithio.

Yn sgil cyflwyno Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), bydd cynllunio/adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn dod yn rhywbeth cyffredin. Mae rhai darparwyr eisoes yn defnyddio'r fethodoleg hon i lywio CDUau dysgwyr.

Atodiad 2: Dogfennau cynllunio ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae nifer o wahanol ddogfennau neu gynlluniau sy'n amlinellu anghenion ychwanegol dysgwyr ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cynllun Chwarae Unigol (CChU)	defnyddir yn gyffredinol ar gyfer dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen
Cynllun Addysg Unigol (CAU), Cynllun Dysgu Unigol (CDU)	dogfen sy'n amlinellu manylion am anhawster dysgu plentyn/person ifanc a'r camau y dylai'r darparwr eu cymryd i gynorthwyo'r plentyn/person ifanc i oresgyn yr anhawster yn y ffordd orau.
Cynllun Ymddygiad Unigol (CYU)	defnyddir yn gyffredinol ar gyfer dysgwyr a allai fod yn cael anhawster yn rheoli eu hymatebion emosiynol mewn darparwr.
Cynllun Cymorth Bugeiliol (CCB)	dogfen sy'n datgan y cymorth y mae angen i ddarparwr a gwasanaethau eraill ei ddarparu i atal plentyn rhag cael ei wahardd neu atal gweithgarwch troseddol.
Cynlluniau neu adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion	dull amlasiantaethol o adolygu a chynllunio cymorth a darpariaeth arall sydd eu hangen ar ddysgwyr ag ADY i fodloni targedau dysgu a thargedau cymdeithasol cytûn. Mae dysgwyr yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau. Daw cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn rhywbeth cyffredin wrth i'r Bil ADY gael ei roi ar waith.
Cynllun Addysg Personol (CAP)	dogfen sy'n amlinellu anghenion dysgu plant sy'n derbyn gofal.
Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig	rhoddir datganiadau anghenion addysgol arbennig i ddysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae cynnwys y datganiad yn sicrhau, yn gyfreithiol, y dylai'r plentyn dderbyn y ddarpariaeth a nodwyd.

Yn sgil diwygio deddfwriaethol o ran anghenion dysgu ychwanegol, mae'n debygol y bydd yr holl ddogfennau uchod yn cael eu disodli gan y cynllun datblygu unigol (CDU).

I baratoi ar gyfer y diwygiadau, mae rhai darparwyr yn arbrofi â defnyddio'r cynllun datblygu unigol (CDU). Yn ei hanfod, dylai'r CDU gwmpasu'r holl agweddau sy'n cael eu cwmpasu ar hyn o bryd yn y cynlluniau a restrir uchod. Bydd rhagor o arweiniad ar CDUau yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, maes o law.

Mae CDUau yn anstatudol ar hyn o bryd, ac nid ydynt yn disodli datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Ar wahân i'r cynllun a allai fod gan blentyn neu berson ifanc, dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth arfarnu'r cynlluniau hyn:

- A yw'r cynllun yn cynnwys manylion am anhawster/anawsterau'r plentyn?
- A yw'r cynllun yn cynnwys manylion am y ddarpariaeth sydd ei hangen i gynorthwyo'r plentyn?
- A yw'r cynllun yn nodi'n glir y strategaethau y dylai staff eu defnyddio?
- Sut mae'r darparwr yn gwybod a yw staff yn gyson o ran defnyddio'r strategaethau a nodwyd?
- A yw'r cynllun yn cynnwys targedau sy'n fesuradwy ac yn briodol i'r anhawster a nodwyd?
- A yw targedau'n briodol ac yn ddigon heriol?
- A yw'r cynllun yn cynnwys dyddiad dechrau a dyddiad adolygu? Dylid adolygu CAUau, er enghraifft, ddwywaith y flwyddyn a phob tymor, yn ddelfrydol. Dylai gynnwys barn y rhieni a'r dysgwr.
- A oes tystiolaeth glir o gynnydd y mae'r plentyn yn ei wneud mewn perthynas â'r targedau ar gyfer gwella?
- A yw'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth ddiweddar am asesiadau a chyflawniad?
- A gaiff dysgwyr eu cynnwys mewn gosod eu targedau ac adolygu eu cynnydd?
- A gaiff rhieni eu cynnwys mewn gosod ac adolygu targedau a chynnydd?
- A yw pob un o'r staff sy'n gweithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymwybodol o'r targedau a'r gweithdrefnau monitro ar gyfer unigolion?

Atodiad 3: Dosbarth arbenigol awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr ag AAA/ADY

Dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol

Mae'r rhain yn ddosbarthiadau sydd wedi eu sefydlu mewn darparwyr prif ffrwd, gan yr awdurdod lleol. Gallai'r dosbarthiadau hyn gael eu galw'n amlach yn ganolfannau cymorth dysgu, yn gyfleusterau addysgu manylach neu'n ganolfannau adnoddau dysgu, ac ati.

Darperir dosbarthiadau arbenigol ALI ar gyfer plant ag anghenion na ellir eu bodloni gan amlaf mewn dosbarth prif ffrwd. Bydd gan ddysgwyr sy'n mynychu dosbarth arbenigol ALI angen dysgu ychwanegol, er enghraifft awtistiaeth, anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith, anawsterau dysgu difrifol, nam ar y golwg neu'r clyw.

Bydd dysgwyr yn elwa ar gymarebau staffio uwch na'r brif ffrwd a bydd staff fel arfer yn meddu ar gymwysterau, gwybodaeth neu brofiad arbenigol mewn gweithio gyda'r anghenion a nodwyd sydd gan ddysgwyr.

Yn dibynnu ar eu hangen, gallai rhai dysgwyr gael eu haddysgu bron yn gyfan gwbl yn y dosbarth arbenigol a gallai dysgwyr eraill elwa ar gael eu haddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd.

Mae'r awgrymiadau a ddarperir yn erbyn y pum maes arolygu yr un mor berthnasol i ddosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol.

Yn ychwanegol, dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

- Faint y mae dysgwyr yn y dosbarth arbenigol yn elwa ar brofiadau dysgu ar draws yr ysgol gyfan?
- Pa mor dda y caiff yr arbenigedd yn y dosbarth arbenigol ei ddefnyddio i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY ar draws yr ysgol?

Atodiad 4: Darpariaeth ychwanegol i reoli ymddygiad a chefnogi dysgu

Efallai bod gan y darparwr ddarpariaeth 'cynhwysiant', 'anogaeth' neu 'gymorth dysgu' i dynnu dysgwyr sy'n tarfu ar wersi oddi yno. Dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth arfarnu'r dysgu hwn a'r ddarpariaeth hon:

- A oes llwybr cyfeirio clir, ac a gaiff y system hon ei defnyddio'n briodol?
- Pa mor dda y mae uwch arweinwyr yn dadansoddi effeithiolrwydd strategaethau'r darparwr – a ydynt yn ymwybodol o batrymau o dynnu dysgwyr o wersi yn fynych neu'n aml o un athro neu bwnc?
- A yw uwch arweinwyr yn defnyddio dadansoddi patrymau i benderfynu pryd y mae angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr neu athrawon?
- Pa mor dda y caiff camau pellach eu cymryd, er enghraifft defnyddio cynorthwywyr cymorth, rhoi gwybod i rieni, cosbau wedi'u cynllunio? (Edrychwch ar ba bryd, pam, pa mor aml a beth.)
- Pa mor effeithiol yw'r addysgu a'r dysgu yn y ddarpariaeth 'cynhwysiant'?
- A oes cydlyniad addas rhwng anghenion dysgwyr a'r ymyrraeth?
- A yw ymddygiad dysgwyr yn gwella yn ystod eu cyfnod yn y ddarpariaeth – sut caiff hyn ei ddangos?
- A gaiff ymddygiad gwell ei gynnal pan fydd dysgwyr yn dychwelyd i'w dosbarthiadau arferol?

Atodiad 5: Enghraifft o fap darpariaeth

Example provision map

					Provision Costs											CRIS Analysis				
Year Group	Class / Pupil / Person	Provision / Resource	Individual Group	Academic Year	Teaching Assistants						Teachers					Outcomes	1	2	3	4
					Type / Grade of Support	Total No. of Hrs / Week	Total No. of Weeks	Total (£)	Funded By	%	Type / Grade of Support	Total No. of Hrs / Week	Total No. of Weeks	Total (£)	Funded By					
Rec		Confidence Building Group	Group EI	2010/11	TA2	5.00	39.00	£2,268.86	School	100						100				
Rec		PATHS	Class Suppor	2010/11						100	M3	1.00	39.00	£963.02	School	100				
Yr 1		Behaviour Support	Group SEN	2010/11	TA2	2.00	39.00	£907.55	LA	100						100				
Yr 1		Literacy Support	Group SEN	2010/11	TA2	7.00	39.00	£3,176.41	School	100						100				
Yr 2		Additional Support	Individually	2010/11	TA2	10.00	39.00	£4,537.73	LA	100						100				
Yr 2		Additional Support	Individually	2010/11	TA2	10.00	39.00	£4,537.73	School	100						100				
Yr 3		SAP	Group EI	2010/11	TA2	2.00	39.00	£907.55	School	100	M6	2.00	39.00	£2,414.21	School	100				
Yr 4		Catch Up / Dyfal Donc	Individually	2010/11	TA2	6.00	39.00	£2,722.64	School	100						100				
Yr 4		Speech & Language Programmes	Individually	2010/11						100	M2	1.00	39.00	£891.17	School	100				
Yr 5		Behaviour Support	Individually	2010/11	TA2	1.50	39.00	£680.66	LA	100						100				
Yr 5		Math Group	Group SEN	2010/11						100	M5	1.00	39.00	£1,118.61	School	100				
Yr 6		Medical Intervention	Individually	2010/11	TA3	3.00	39.00	£1,684.80	School	100						100				
Yr 6		MAT Art Club	Group EI	2010/11						100	M6	1.00	30.00	£928.54	School	100				
Yr 1		HI/VI/MSI Support	Individually	2010/11						100	Specialist Teacher	2.00	30.00	£2,940.00	LA	100				
Yr 2		Specialist Teaching Support	Group SEN	2010/11						100	Specialist Teacher	4.00	39.00	£7,644.00	LA	100				
Yr 3		Behaviour Support	Group SEN	2010/11	TA2	3.00	39.00	£1,361.32	School	100						100				

Atodiad 6: Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (2004)

Hyd nes y bydd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, mae'r canlynol yn berthnasol o hyd:

Wrth drefnu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA), rhaid i ddarparwyr a gynhelir fodloni gofynion statudol.² Rhaid iddynt ddilyn Cod Ymarfer AAA Cymru (2004) sy'n darparu arweiniad ar y dyletswyddau a'r hawliau statudol sydd wedi'u cynnwys yn:

- Rhan IV Deddf Addysg, 1996; a
- Deddf Anghenion Addysgol Arbennig a Deddf Anabledd (SENDA) 2001.

Mae'r ymateb graddedig yn cydnabod bod continwrm angen trwy:

- weithredu yn y blynyddoedd cynnar neu'r darparwr, ble caiff darpariaeth ei threfnu gan ddarparwyr y blynyddoedd cynnar neu ddarparwyr
- gweithredu a mwy yn y blynyddoedd cynnar neu'r darparwr, ble caiff darpariaeth ei threfnu gan ddarparwyr y blynyddoedd cynnar neu'r darparwyr, gyda chyngor a chymorth ychwanegol gan wasanaethau cymorth yr awdurdod lleol neu asiantaethau partner
- asesiad a darpariaeth statudol a drefnir ar y cyd gan ddarparwyr y blynyddoedd cynnar neu ddarparwyr, yr awdurdod lleol, ac mewn rhai achosion, asiantaethau partner

Er bod y ddeddfwriaeth yn y Cod Ymarfer yn disgrifio dyletswyddau statudol awdurdodau lleol a darparwyr, nid yw'n diffinio'n fanwl gywir anghenion pa ddysgwyr y dylid eu bodloni gan bob un o'r graddau ymateb hyn.

Mae'r fframwaith statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a darparwyr gynllunio i gynyddu mynediad ar gyfer dysgwyr anabl a datblygu addysg gynhwysol ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc.

² Nid yw'r ddyletswydd i ystyried y Cod Ymarfer AAA yn berthnasol i ddarparwyr annibynnol.

Atodiad 7: Dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol ac adnoddau addysgu ychwanegol mewn darparwyr prif ffrwd

Mae'r canlynol yn cynrychioli arweiniad ar arolygu dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r arweiniad yn amlinellu'r camau gweithredu y dylid eu cymryd yn unol â'r adnodd categori dan sylw.

Categori 1: Dosbarth arbenigol awdurdod lleol sy'n rhan o ddarparwr prif ffrwd

Os bydd un dysgwr neu fwy ar gofrestr yr ysgol, dylech arolygu'r ddarpariaeth fel rhan o'r darparwr prif ffrwd. Mae hyn fel arfer yn golygu bod gan yr ysgol gyfrifoldeb rheoli uniongyrchol am yr agwedd hon ar y ddarpariaeth. Nid oes ots pwy sy'n ariannu'r ysgol, na phwy sy'n talu'r staff na ph'un a yw'r dysgwyr yn dod o'r tu mewn i'r dalgylch arferol, neu'r tu hwnt iddo.

Categori 2: Adnodd addysgu ychwanegol sy'n rhan o ysgol arbennig ond wedi'i leoli ar safle'r ysgol prif ffrwd. Mae gan ddysgwyr sy'n mynychu'r ysgol hon gofrestrriad deul

Dylech arolygu'r deilliannau a gyflawnir gan ddysgwyr yn yr adnodd ychwanegol. Yn ysgrifenedig, dylech barhau i adrodd ar berfformiad yr ysgol gyfan, gan gynnwys y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, pan fo modd, dylech adrodd yn fras hefyd ar y cynnydd a wna'r dysgwyr hyn er mwyn gallu ystyried eu cynnydd yn yr arolygiad o'r ysgol arbennig. Fodd bynnag, ni ddylech arfarnu'r ddarpariaeth addysgol na'r arweinyddiaeth, oni bai fod pennaeth y darparwr prif ffrwd yn cyflogi a rheoli'r athrawon yn yr adnodd addysgu ychwanegol. Bydd arolygiad o ddarpariaeth ac arweinyddiaeth yn cael ei gynnal fel rhan o'r arolygiad o'r ysgol arbennig.

Categori 3: Adnodd addysgu ychwanegol sy'n rhan o ysgol arbennig ond wedi'i leoli ar safle darparwr prif ffrwd. Nid oes gan ddysgwyr gofrestrriad deul

Ni ddylech arolygu'r math hwn o ddarpariaeth fel rhan o'r ysgol prif ffrwd. Bydd yr arolygiad o'r ddarpariaeth hon yn cael ei gynnal fel rhan o'r arolygiad o'r ysgol arbennig.

Categori 4: Mae'r adnodd addysgu ychwanegol wedi'i gofrestru fel UCD

Ni ddylech arolygu'r ddarpariaeth hon gan y bydd arolygiad ar wahân yn cael ei gynnal.

Gallai Estyn arolygu'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol hefyd yn ystod yr arolygiad o'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, os oes gan rai dysgwyr gofrestrriad deul, mae'r egwyddorion yn berthnasol yn yr un modd â chategori 2 uchod.

Categori 5: Unrhyw adnodd addysgu ychwanegol sydd ar safle'r ysgol ond nid yw'n gweddu i gategorïau 1-4

Ni ddylech arolygu'r ddarpariaeth hon. Dylech ffonio Cydlynnydd Arolygu Estyn ar 02920 446446 i'w hysbysu bod darpariaeth adnoddau yn bodoli sy'n dod o dan gategori 5. Gallai'r ddarpariaeth hon gynnwys y nodweddion canlynol:

- Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn trefniadau cwricwlwm amgen nad ydynt yn cael eu hariannu gan y darparwr.
- Mae'r awdurdod lleol yn ariannu a rheoli'r ddarpariaeth yn uniongyrchol.
- Mae'r awdurdod lleol yn ariannu darparwyr allanol i gynnal y ddarpariaeth.